

Hyfforddiant Ar-lein i Gynrychiolwyr – rhywfaint o arweiniad i Gymru

Wales
TUC
Cymru

Fel arfer, mae cynnwys y cyrsiau hyn yn debyg iawn i beth fyddai'n cael ei gyflwyno gan diwtor Astudiaethau Undeb Llafur yng Nghymru. Fodd bynnag, mae addysg yn llwyr ddatganoledig sy'n golygu mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am yr holl elfennau o addysg yng Nghymru, gan gynnwys ar gyfer oedolion. Felly, os ydych yn bwriadu cwblhau cwrs Cynrychiolwyr Dysgu'r Undeb 1 neu 2, sylwch ar y gwahaniaethau rhyngddynt.

Dyma enghreifftiau:

- Byddwch yn gweld llawer o gyfeiriadau at Unionlearn ar gyrsiau ar-lein Cynrychiolwyr Dysgu'r Undeb. Unionlearn yw tîm yn TUC Lloegr sy'n cyflawni dysgu a sgiliau. Er nad ydym yn eu galw'n Unionlearn yng Nghymru, mae gennym staff sy'n cyflawni'r un blaenoriaethau. Pan fyddwch yn gweld Unionlearn, meddyliwch am TUC Cymru.
- Cronfa Ddysgu Undebau. Mae gennym y gronfa yma yng Nghymru ond ei henw yw Cronfa Ddysgu Undebau Cymru ac mae gennym staff TUC Cymru i gefnogi prosiectau fel y mae Unionlearn yn ei wneud yn Lloegr.
- Mae cyrsiau ar-lein Cynrychiolwyr Dysgu'r Undeb yn darparu llawer o enghreifftiau ac astudiaethau achos. Er bod y rhain yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol, sylwch nad yw'r un ohonynt yn Gymraeg. Er hyn, mae gennym ddigon o rai ein hunain - gallwch edrych ar rai ohonynt ar wefan TUC Cymru.
- Mae'r cyrsiau ar-lein yn cynnwys canlyniadau ac ystadegau arolygon i ddangos manteision dysgu'r ffordd yma. Mae'r rhain yn berthnasol ac yn bwysig, ond cofiwch eu bod ond yn

adlewyrchu arolygon a gynhaliwyd yn Lloegr. Efallai y byddwn yn cael yr un canlyniadau yma yng Nghymru ond mae'n well peidio â'u dyfynnu wrth eich cyflogwr wrth negodi, rhag ofn.

- Mae'r adnodd Storiâu Sydyn yn cynhyrchu llyfrau bach a bachog ar gyfer darllenwyr newydd neu'r rheini sydd wedi colli eu harferion darllen. Mae hyrwyddo'r llyfrau hyn yn ffordd dda o ddangos eich bod yn Gynrychiolydd Undeb Llafur. Mae'r cwrs ar-lein yn dangos i chi lle gallwch ddod o hyd iddynt, ond mae llyfrau Cymraeg ar gael hefyd. Gallwch ddod o hyd i'r rheini ar wefan Darllen Cymru.
- Yn olaf – Polisiau TUC. Mae'n debygol y byddwch yn clywed sôn am Gyngres TUC fel man lle cytunir ar bolisiau a blaenoriaethau gwaith TUC. Mae hyn yn gywir ond cofiwch fod gennym ni Gyngres TUC Cymru ein hunain ar gyfer gwaith yn y meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru.

Yn gyffredinol, mae'r adnoddau ar-lein ar gyfer Cynrychiolwyr Undeb Llafur yn ddefnyddiol, yn glir ac yn gefnogol. Dim ond rhywfaint o'r gwahaniaethau roedden ni eisiau eu hamlygu yw'r rhain ond peidiwch â gadael iddynt eich annog i beidio â dilyn y cyrsiau pwysig hyn. Hefyd, os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau, cysylltwch â ni yn wtuc@tuc.org.uk neu ffonio 02920 347010 (gallwn ateb y ffôn i chi er nad ydym yn y swyddfa).